# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 57
03/05/21

## Y brecwast anhygoel

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes
Ben williams, Kathryn Williams a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Dyma Iesu'n ymddangos eto i'w ddisgyblion wrth Lyn Tiberias. Dyma beth ddigwyddodd: Roedd criw ohonyn nhw gyda'i gilydd – Simon Pedr, Tomos (oedd yn cael ei alw ʻYr EfailIʻ), Nathanael o Cana Galilea, meibion Sebedeus, a dau ddisgybl arall. 3 "Dw i'n mynd i bysgota," meddai Simon Pedr wrth y lleill. A dyma nhw'n ateb, "Dŷn ni am ddod hefyd." Felly aethon nhw allan mewn cwch, ond wnaethon nhw ddal dim drwy'r nos.

Pan oedd hi yn dechrau gwawrio dyma Iesu'n sefyll ar lan y llyn, ond doedd y disgyblion ddim yn gwybod mai Iesu oedd yno. Galwodd arnyn nhw, "Oes gynnoch chi bysgod ffrindiau?" "Nac oes," medden nhw. Yna dwedodd Iesu, "Taflwch y rhwyd ar ochr dde'r cwch, a byddwch yn dal rhai." Dyma nhw'n gwneud hynny, a chafodd cymaint o bysgod eu dal nes eu bod nhw'n methu tynnu'r rhwyd yn ôl i'r cwch. Dyma'r disgybl roedd Iesu'n ei garu yn dweud wrth Pedr, "Yr Arglwydd ydy e!" A dyma Simon Pedr yn rhwymo dilledyn am ei ganol (doedd ganddo ddim byd amdano), yna neidio i'r dŵr. Daeth y disgyblion eraill ar ei ôl yn y cwch, gan lusgo'r rhwyd oedd yn llawn o bysgod ar eu holau. (Doedden nhw ond ryw 90 metr o'r lan.) Ar y lan roedd tân golosg a physgod yn coginio arno, ac ychydig fara. "Dewch â rhai o'r pysgod dych chi newydd eu dal," meddai Iesu wrthyn nhw. Felly dyma Simon Pedr yn mynd i mewn i'r cwch a llusgo'r rhwyd i'r lan. Roedd hi'n llawn o bysgod mawr, 153 ohonyn nhw, ond er hynny wnaeth y rhwyd ddim rhwygo. "Dewch i gael brecwast," meddai Iesu. Doedd dim un o'r disgyblion yn meiddio gofyn iddo, "Pwy wyt ti?" – roedden nhw'n gwybod yn iawn mai'r Meistr oedd e. Yna dyma Iesu'n cymryd y bara a'i roi iddyn nhw, a gwneud yr un peth gyda'r pysgod. Dyma'r trydydd tro i Iesu adael i'w ddisgyblion ei weld ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw.

Pan oedden nhw wedi gorffen bwyta, dyma Iesu'n troi at Simon Pedr a dweud, "Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i fwy na'r rhain?" "Ydw, Arglwydd," atebodd, "rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di." Dwedodd Iesu wrtho, "Gofala am fy ŵyn." Yna gofynnodd Iesu eto, "Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i?" Dwedodd eto, "Ydw, Arglwydd, rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di." Meddai Iesu, "Arwain fy nefaid." Yna gofynnodd Iesu iddo'r drydedd waith, "Simon fab Ioan, wyt ti'n fy ngharu i?" Roedd Pedr yn ddigalon fod Iesu wedi gofyn eto'r drydedd waith, "Wyt ti'n fy ngharu i?" "Arglwydd," meddai, "rwyt ti'n gwybod pob peth; rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di." Yna dwedodd Iesu, "Gofala am fy nefaid.

*Ioan 21:1-17 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Aeth rhai o'r disgyblion i bysgota. Fe fuon nhw'n pysgota trwy'r nos ond ddalion nhw'r un pysgodyn. Wrth iddi ddechrau gwawrio galwodd dyn oedd yn sefyll ar y lan ar y disgyblion, "Oes ganddoch chi bysgod?" "Nac oes!" atebon nhw'n siomedig. Dywedodd y dyn wrthynt i osod y rhwyd yr ochr arall i'r cwch. Y tro hwn wnaethon nhw ddal gymaint o bysgod




nes eu bod nhw'n methu â chodi'r rhwyd i'r cwch. Sylweddolodd Simon Pedr mai Iesu oedd y dyn felly neidiodd i'r dŵr a nofiodd at Iesu. Daeth y lleill ar ei ôl gan lusgo'r rhwyd i'r lan. Cafodd y disgyblion frecwast ar lan y llyn gyda Iesu. Ar ôl brecwast trodd Iesu at Simon Pedr a gofyn iddo "Wyt ti'n fy ngharu i?" "Ydw Arglwydd, ti'n gwybod fy mod i'n dy garu." Gofynnodd Iesu i Simon Pedr eto ddwywaith, "Wyt ti'n fy ngharu?" Roedd Simon Pedr yn ddigalon fod Iesu wedi gofyn iddo dair gwaith. Atebodd eto, "Ydw Arglwydd, ti'n gwybod fy mod i'n dy garu di". Dywedodd Iesu wrtho, "Gofala am y bobl fydd yn fy nilyn ."

# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi cael barbeciw i frecwast rhyw dro? Beth wyt ti'n hoffi ei gael i'w fwyta mewn barbeciw?
2. Sut wnaeth y disgybl sylweddoli mai Iesu oedd ar y lan?
3. Pam wyt ti'n meddwl fod Pedr wedi neidio o'r cwch pan sylweddolodd o mai Iesu oedd ar y lan?
4. Pam wyt ti'n meddwl fod Iesu wedi gofyn i Pedr dair gwaith os oedd yn ei garu?
5. Sut wyt ti'n meddwl oedd Pedr yn teimlo ar ôl cael sgwrs gydag Iesu?






# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti dy fod yn rhoi ail gyfle i ni pan fyddwn yn gwneud camgymeriad. Plîs helpa fi i dy garu'n fwy bob dydd.
Amen

# Stori i'w lliwio

# Y brecwast anhygoel

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Roedd disgyblion Iesu'n drist. Roedden nhw'n methu Iesu'n fawr, er eu bod wedi clywed fod pobl wedi gweld Iesu'n fyw unwaith yn rhagor wedi iddo godi o farw'n fyw!



Roedd Simon Pedr, Tomos, Nathanael, Iago, Ioan a dau ffrind wrth Lyn Galilea. "Rydw i'n mynd i bysgota," meddai Simon Pedr ac aeth ei ffrindiau gydag ef.




Ddwywaith ers i Iesu farw ar y groes roedd pobl wedi dweud eu bod wedi ei weld yn fyw. "Allai hynny fod yn wir?" oedden nhw'n ei feddwl. Wnaethon nhw ddim dal yr un pysgodyn er iddynt bysgota trwy'r nos.




Y bore canlynol safodd Iesu ar y lan ....ond nid oedd y disgyblion yn gwybod mai Iesu oedd o. . Galwodd Iesu arnynt, " Wnaethoch chi ddal unrhyw beth?" "Naddo,"atebon nhw'n ddigalon.



"Taflwch eich rhwyd i'r ochr arall," meddai Iesu. Wnaethon nhw ddal cymaint o bysgod nes y bu'n rhaid iddynt alw ar ffrindiau oedd mewn cwch cyfagos i ddod i'w helpu i dynnu'r rhwyd i'r cwch!



Roedd yn waith mor galed a chwyslyd a bu'n rhaid iddynt dynnu eu dillad allanol! Yna sylweddolodd Ioan mai Iesu oedd yno! "Pedr, edrycha! Yr Arglwydd sydd yna," gwaeddodd.



Gwisgodd Pedr ei ddillad allanol a nofiodd i'r lan. Roedd o mor gyffrous i weld fod Iesu'n fyw. Dyma'r trydydd tro i Iesu gael ei weld wedi iddo atgyfodi o'r meirw!



Roedd Iesu wrthi'n coginio pysgod ar y tân. Rhannodd y disgyblion y brecwast anhygoel hwn gydag Iesu a bwytaodd ef gyda nhw hefyd. Roedd Ioan, un o'r disgyblion yno ac fe ysgrifennodd yr hanes fel y gallwn ei ddarllen yn y Beibl.

# Sialensau

## Hosan yn y bwced!

Byddi angen bwced neu fasged a phâr o sanau wedi eu rholio'n belen. Rho'r fwced rhyw 2 gam y tu ôl i ti. Tafla'r belen dros dy ysgwydd i'r bwced. Yr her ydy cael y sanau i'r bwced dair gwaith. Gofynna i bawb yn y tŷ ymuno yn yr her.




## Adnabod pysgod

Dysga enwau 10 math o bysgodyn.
Dilyna'r ddolen hon:
https://www.gweiddi.org/media/5352/7-tasg-1.pdf



## Y Brecwast Lego!

Gan ddefnyddio Lego, ail grea'r olygfa o'r disgyblion yn eistedd wrth y tân gydag Iesu.



## Picnic

Beth am fynd am bicnic teuluol ar glan y môr, glan y llyn neu afon. Gallech gael brechdanau 'fish fingers' a darllen y stori gyda'ch gilydd.



## Creu Tân Ffug

Crea dân ffug gan ddefnyddio priciau tân a phapur. Gelli glymu'r priciau ynghyd â llinyn a gludo papur lliwgar ynddyn nhw neu fe allet ti osod y priciau wrth ymyl ei gilydd ac ychwanegu papur lliwgar. Yna eistedda di a dy ffrindiau o gwmpas y 'tân' a chael picnic gyda'ch gilydd. Meddyliwch am y pethau wnaeth Iesu a Phedr sgwrsio amdanynt.



# Dolenni





Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=N8y1ZHoLjuM

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/2-KF-dZD_jA








Cartŵn (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=Ppb9bKX1r7k

# Posau

Defnyddia'r cod i ddod o hyd i'r adnod




## Beth ydy'r gair?

*Rho lythyren gyntaf yr atebion yn y blychau i ddarganfod y gair coll.*

Pwy oedd eisiau mynd i bysgota?

Pa lythyren sydd ar goll: "Yr Arglw_dd _d_ e!"

Beth oedd enw cyntaf y pysgotwr neidiodd i'r dŵr?

Gofynnodd Iesu iddo os oedd yn ei _ _ _ _.

Pa lythyren sydd ar goll? "_es gynn_ch chi bysg_d ffrindiau?

Beth oedd y disgyblion yn ei wneud gyda'r rhwyd i gael y pysgod i'r cwch?


Beth mae'r disgyblion yn galw Iesu i ddangos ei fod yn bwysig?

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

## Cwestiynau

Fedri di ddod o hyd i'r atebion yn y stori?

1. Faint o ddisgyblion aeth i bysgota?




2. Beth wnaethon nhw ei ddal yn ystod y nos?




3. Beth wnaethon nhw ei ddal ar ôl i Iesu ddweud wrthyn nhw ble i bysgota?



4. Beth wnaeth Pedr pan sylweddolodd mai Iesu oedd E?



5. Ble cawson nhw frecwast?



# Crefft

## Gêm Bysgota



**Byddi angen:**

Bocs bwyd cardfwrdd,gwag
cerdyn gwyn A4 ,
sgiwer bambŵ, clipiau papur,
edau neu wlân, brwsh paent,
paent glas a gwyrdd,
papur sidan, pinnau ffelt, tâp
selo, tyllwr, siswrn.






**1.** I wneud y tanc pysgod agora'r bocs cardfwrdd gwag allan yn ofalus a thorrar'r caead i ffwrdd.



**2**. Defnyddia dâp selo i atgyfnerthu corneli'r bocs i wneud y tanc pysgod.



**3**. Peintia'r tanc pysgod yn las ac yn wyrdd ac yna ei adael i sychu.



**4**. I wneud y morwellt, torra stribedi hir o bapur sidan. Byddai glas neu wyrdd yn edrych yn wych!



**5**. Plyga'r stribedi papur sidan yn eu hanner a'u glynu â thâp selo.



**6**. Gwna fwy o forwellt.



**7**. Glyna'r morwellt â'r tâp selo yn sownd yn y tanc pysgod .



**8**. Ar gerdyn A4 gwyn, dylunia ychydig o greaduriaid y môr ac yna eu lliwio.




**9**. Torra greaduriaid y môr allan a lliwia nhw'r ochr arall i gyd fynd â'r ochrau sydd eisoes wedi eu lliwio.



**10**. Defnyddia'r tyllwr i wneud twll ym mhob un o'r creaduriaid.




**11**. Rho glip papur yn sownd drwy bob twll.




**12**. I wneud y wialen bysgota, clyma'r edau neu'r gwlân i'r sgiwer bambŵ.





**13**. I wneud y bachyn pysgota, agora'r clip papur yn ofalus fel y gweli di yn y llun.



**14**. Clyma'r 'bachyn' yn dynn i waelod yr edau neu'r gwlân.



**15**. Rho dy greaduriaid y môr yn y tanc pysgod ac yna ceisia eu dal nhw i gyd â dy wialen bysgota! Fyddi di'n siŵr o gael hwyl!

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | R | T | O | M | O | S | A | U | A | B | I |
| I | A | G | O | L | W | G | R | S | R | CH | O |
| D | I | TH | G | A | L | I | L | E | A | Y | A |
| U | A | R | A | DD | I | E | C | I | B | S | N |
| P | E | D | R | N | N | W | E | N | Y | D | O |
| W | D | N | I | O | A | S | I | M | O | N | D |
| C | Y | M | R | S | T | E | W | N | O | Y | O |
| LL | W | I | T | H | O | F | L | S | C | S | I |
| A | B | D | A | L | G | Y | R | RH | W | Y | D |
| R | E | N | F | D | S | LL | W | Y | CH | G | I |
| A | R | G | L | W | Y | DD | G | E | D | I | E |
| C | A | R | U | I | P | Y | S | G | O | D | N |

ARALL
ARGLWYDD
BARA
BRECWAST
CARU
CWCH
DAL
DIM
GALILEA
IAGO
IESU
IOAN
LLYN
NATHANAEL
NEIDIO
NOS
OCHR
PEDR
PYSGOD
PYSGOTA
RHWYD
SEFYLL
SIMON
TAFLU
TOMOS
TRI

# Gweddi Greadigol

## Cwch gweddi

**Bydd angen:**


- Darn o bapur maint A4
- Rhywbeth i ysgrifennu ag o
- OEDOLYN o dy deulu i fynd gyda thi at nant neu afon fechan

**Sut i wneud:**

- Dilyna'r cyfarwyddiadau i wneud y cwch papur.
- Meddylia am rywbeth rwyt ti eisiau dweud 'sori' amdano a'i ysgrifennu ar ochr y cwch.
- Gofyn i oedolyn o dy deulu ddod gyda thi at nant neu afon fechan.
- Rho'r cwch ar y dŵr ac wrth iddo symud i ffwrdd, dyweda "diolch" wrth Dduw am faddau i ti.




1\. Plyga ddarn o bapur A4 yn ei hanner, yna plyga'r corneli i'r canol'




2\. Plyga'r fflapiau i lawr yn y blaen a'r cefn.




3\. Agora'r siâp sgwâr a'i agor y ffordd arall.




4\. Plyga'r 2 fflap i lawr ac at allan ar y ddwy ochr.




5\. Agor y siâp allan a'i blygu'r ffordd arall.



6\. Tro fo o'i gwmpas.



7\. Tynna'r ddau bigyn o bob ochr.



8\. Plyga'r cwch yn fflat. Ysgrifenna weddi ar ei ochr.



# Gemau

## Symud y pysgod i’r bowlen â gwelltyn

**Byddi angen:**

- Gwelltyn ar gyfer pob chwaraewr
- Pysgod wedi eu gwneud allan o bapur
- Bowlen
- Amserydd

**Sut i chwarae:**

- Gosoda’r pysgod papur ar y bwrdd a gosoda’r bowlen nepell i ffwrdd oddi wrthynt.
- Mae pob chwaraewr i gymryd ei dro i sugno’r pysgod, fesul un ,yn sownd i’r gwelltyn a’u trosglwyddo i gyd i mewn i’r bowlen. Bydd angen amseru pob chwaraewr yn gwneud hyn.
- Tybed fedr y chwaraewyr wneud hyn yn gyflymach pan ddaw eu cyfle nesaf?





## Cwrs rhwystrau 3

**Bydd angen:**

- 3 rhwystr fel y rhai yn y llun
- Amserydd – fel oriawr neu ffôn

**Sut i chwarae:**

- Gosoda’r tri rhwystr mewn rhes yn y tŷ neu’r tu allan.
- Mae pob chwaraewr i ddilyn y cwrs rhwystrau dair gwaith.
- Cofia amseru!
- Yr enillydd yw’r un sy’n gorffen y cwrs dair gwaith yn yr amser cyflymaf.

# Canu

*Cytgan:*
Paid â throi'n ôl i dy hen ffyrdd;
Rwyt ti wedi cael blas ar fywyd newydd gydag Iesu.
Paid â throi'n ôl i dy hen ffyrdd;
Parha â'r antur, bywyd newydd gydag Ef.

Meddai Pedr, “Dwi’n mynd i bysgota
Does ‘na ddim byd arall i’w wneud.”
“Nid pysgod ond dal di bobl!” –
Dyma beth wnaeth Iesu’i ddweud.



Roedd ’na rywun arall yn sefyll
Ar ei ben ei hun ar lan y môr.
Meddai un o’r disgyblion eraill,
“’Edrycha Pedr! Dyma Iesu'r Iôr.”

Wrth y tân, wrth iddynt gael brecwast
Gofynnodd Iesu, “Ti’n fy ngharu i?”
Yn faddeugar dywedodd wrth Pedr
“Dyma siawns arall i ti.”

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/2-KF-dZD_jA

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes: ahughes@saintygymuned.org